*Mae'r Offeryn Statudol hwn, yn rhannol, yn cywiro gwallau yn Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1179) (Cy. 238) a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/497) (Cy. 114). Mae'n cael ei ddyroddi'n rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.*

*This Statutory Instrument, in part, corrects errors in the Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018 (S.I. 2018/1179) (W. 238) and the Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019 (S.I. 2019/497) (W. 114). It is being issued free of charge to all known recipients of those Statutory Instruments.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

**2024 Rhif 617 (Cy. 89)**

**2024 No. 617 (W. 89)**

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

# PLANT HEALTH, WALES

## Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

## The Plant Health etc. (Miscellaneous Fees) (Amendment) (Wales) Regulations 2024

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019.

Mae rheoliad 2(2) yn diwygio'r ffioedd am wiriadau dogfennol sy'n ymwneud â phlanhigion penodol, cynhyrchion planhigion penodol neu wrthrychau eraill penodol sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir. Mae hefyd yn darparu nad yw ffi yn daladwy am wiriadau ffisegol na gwiriadau adnabod sy'n ymwneud â nwyddau penodol o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein a'r Swistir ac yn darparu eithriadau i'r rheol honno.

Mae rheoliad 2(3) yn mewnosod tabl o blanhigion penodol, cynhyrchion planhigion penodol a gwrthrychau eraill penodol y mae'r ffioedd a ddiwygir gan reoliad 2(2) yn ymwneud â hwy. Mae'r tabl yn diweddaru ac yn cywiro'r ffioedd arolygu mewnforio ar gyfer *Solanum lycopersicum* o Morocco a'r Ynysoedd Dedwydd.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018 and the Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019.

Regulation 2(2) amends the fees for documentary checks relating to certain plants, plant products or other objects originating from an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland. It also provides that no fee is payable for physical and identity checks relating to certain goods from EU Member States, Liechtenstein and Switzerland and provides exceptions to that rule.

Regulation 2(3) inserts a table of certain plants, plant products and other objects to which the fees amended by regulation 2(2) relate. The table updates and corrects the import inspection fees for *Solanum lycopersicum* from Morocco and the Canary Islands.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019. Mae paragraff (2) yn cywiro'r math o arolygiad y gellir codi ffi amdano o dan y Rheoliadau hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Regulation 3 amends the Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019. Paragraph (2) corrects the type of inspection for which a fee is chargeable under those Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

*Mae'r Offeryn Statudol hwn, yn rhannol, yn cywiro gwallau yn Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1179) (Cy. 238) a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/497) (Cy. 114). Mae'n cael ei ddyroddi'n rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

## 2024 Rhif 617 (Cy. 89)

## IECHYD PLANHIGION, CYMRU

# Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mai 2024* |
| *Yn dod i rym* | *9 Mai 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 14(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 7 o Atodlen 4 iddi(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno(**2**).

(**1**) 2018 p. 16, gweler paragraff 8 o Atodlen 4 am ystyr "appropriate authority". Diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018") gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020") a pharagraff 47(5) o Atodlen 5 iddi. Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf 2020 a pharagraff 53(2) o Atodlen 5 iddi.

(**2**) Mae paragraff 1(8) o Atodlen 7 yn gymwys i reoliadau o dan Atodlen 4 yn rhinwedd paragraff 12(3) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018. Mae'r cyfeiriadau yn Neddf 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

*This Statutory Instrument, in part, corrects errors in the Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018 (S.I. 2018/1179) (W. 238) and the Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019 (S.I. 2019/497) (W. 114). It is being issued free of charge to all known recipients of those Statutory Instruments.*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

## 2024 No. 617 (W. 89)

## PLANT HEALTH, WALES

# The Plant Health etc. (Miscellaneous Fees) (Amendment) (Wales) Regulations 2024

| | |
|---|---|
| *Made* | *8 May 2024* |
| *Coming into force* | *9 May 2024* |

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 14(1) of, and paragraph 7 of Schedule 4 to, the European Union (Withdrawal) Act 2018(**1**).

A draft of this instrument has been laid before and approved by Senedd Cymru in accordance with paragraph 1(8) of Schedule 7 to that Act(**2**).

(**1**) 2018 c. 16, see paragraph 8 of Schedule 4 for the meaning of "appropriate authority". Paragraph 8 of Schedule 4 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 ("the 2018 Act") was amended by section 41(4) of, and paragraph 47(5) of Schedule 5 to, the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1) ("the 2020 Act"). Paragraph 21 of Schedule 7 was amended by section 41(4) of, and paragraph 53(2) of Schedule 5, to the 2020 Act.

(**2**) Paragraph 1(8) of Schedule 7 applies to regulations under Schedule 4 by virtue of paragraph 12(3) of Schedule 7 to the 2018 Act. The references in the 2018 Act to the National Assembly for Wales now have effect as a reference to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

# RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024.

(2) Deuant i rym ar 9 Mai 2024.

# RHAN 2

## Diwygiadau sy'n ymwneud â ffioedd

**Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (ffioedd arolygu mewnforio)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Y ffi sy'n daladwy gan fewnforiwr llwyth o drydedd wlad mewn cysylltiad â gwiriad dogfennol o bob tystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n mynd gyda'r llwyth yw—

(a) yn achos llwyth sy'n tarddu o Liechtenstein sy'n cynnwys unrhyw blanhigion neu gynhyrchion planhigion sy'n dod o fewn y tabl yn Atodlen 2B a hefyd o fewn yr Atodlen i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022(**2**), £5.25;

(b) yn achos llwyth nad yw is-baragraff (a) yn gymwys iddo, sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir ac nad yw ond yn cynnwys planhigion neu gynhyrchion planhigion sydd i gyd yn dod o fewn y tabl yn Atodlen 2B, £0.15;

(c) mewn unrhyw achos arall, £5.25.";

(b) yn lle paragraff (2E) rhodder—

"(2E) Nid yw ffi yn daladwy o dan baragraff (2A) mewn cysylltiad ag—

(**1**) O.S. 2018/1179 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/804 (Cy. 180); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) O.S. 2022/739, a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/959.

# PART 1

## General

**Title and coming into force**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Plant Health etc. (Miscellaneous Fees) (Amendment) (Wales) Regulations 2024.

(2) They come into force on 9 May 2024.

# PART 2

## Amendments relating to fees

**Amendment of the Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018**

**2.**—(1) The Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 3 (import inspection fees)—

(a) for paragraph (2) substitute—

"(2) The fee payable by the importer of a third country consignment in respect of a documentary check of each phytosanitary certificate or phytosanitary certificate for re-export accompanying the consignment is—

(a) in the case of a consignment originating in Liechtenstein containing any plant or plant products falling within the table in Schedule 2B and also within the Schedule to the Official Controls (Plant Health) (Frequency of Checks) Regulations 2022(**2**), £5.25;

(b) in the case of a consignment to which sub-paragraph (a) does not apply, originating in an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland and containing only plants or plant products all falling within the table in Schedule 2B, £0.15;

(c) in any other case, £5.25.";

(b) for paragraph (2E) substitute—

"(2E) No fee is payable under paragraph (2A) in respect of—

(**1**) S.I. 2018/1179 (W. 238), amended by S.I. 2022/804 (W. 180); there are other amending instruments but none is relevant.

(**2**) S.I. 2022/739, amended by S.I. 2023/959.

(a) unrhyw lwyth sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir a gyflwynir i Gymru drwy borthladd perthnasol cyn 31 Hydref 2024, neu

(b) unrhyw blanhigion a restrir yn y tabl yn Atodlen 2A i Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 a gynhwysir mewn unrhyw lwyth sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir a gyflwynir i Gymru cyn 31 Hydref 2024.

(2EA) Nid yw paragraff (2E) yn gymwys i unrhyw nwyddau—

(a) mewn llwyth sy'n tarddu o Liechtenstein, a

(b) sy'n dod o fewn yr Atodlen i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022."

(c) ym mharagraff (2G), o flaen is-baragraff (a), yn lle ", y tabl ac Atodlen 2A" rhodder "a'r tabl";

(d) ym mharagraff (3)—

(i) ar ôl is-baragraff (d), mewnosoder—

"(da) ystyr "porthladd perthnasol" yw unrhyw un neu ragor o'r porthladdoedd môr a ganlyn—

(i) y Barri;

(ii) Caerdydd;

(iii) Abergwaun;

(iv) Caergybi;

(v) Casnewydd;

(vi) Doc Penfro;

(vii) Abertawe;

(viii) Port Talbot;";

(ii) hepgorer is-baragraff (g).

(a) any consignment originating in an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland introduced into Wales through a relevant port before 31 October 2024, or

(b) any plants listed in the table in Schedule 2A to the Plant Health (Amendment etc.) (EU Exit) Regulations 2020 contained in any consignment originating in an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland introduced into Wales before 31 October 2024.

(2EA) Paragraph (2E) does not apply to any goods—

(a) in a consignment originating in Liechtenstein, and

(b) falling within the Schedule to the Official Controls (Plant Health) (Frequency of Checks) Regulations 2022."

(c) in paragraph (2G), before sub-paragraph (a), for ", the table and Schedule 2A" substitute "and the table";

(d) in paragraph (3)—

(i) after sub-paragraph (d), insert—

"(da) "relevant port" means any of the following seaports—

(i) Barry;

(ii) Cardiff;

(iii) Fishguard;

(iv) Holyhead;

(v) Newport;

(vi) Pembroke Dock;

(vii) Swansea;

(viii) Port Talbot;";

(ii) omit sub-paragraph (g).

(3) Yn lle Atodlen 1 (ffioedd arolygu mewnforio), rhodder —

## "ATODLEN 1 Rheoliad 3(2A) a (2C)

## Ffioedd arolygu mewnforio

| *Colofn 1* *Categori a disgrifiad o blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall* | *Colofn 2* *Gwlad tarddiad* | *Colofn 3* *Ffi: Gwiriad ffisegol (£)* | *Colofn 4* *Ffi: Gwiriad adnabod (£)* |
|---|---|---|---|
| **Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron (ac eithrio cloron tatws), winwns, sialóts, garlleg, cennin a llysiau garllegaidd eraill, planhigion cwsg, nad ydynt mewn swbstrad** | | | |
| Pob genws a fwriedir ar gyfer plannu, ac eithrio cynhyrchu blodau masnachol, ac nas bwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol(1) | Unrhyw drydedd wlad | 205.04 | 5.25 |
| Pob genws a fwriedir ar gyfer plannu, ac a fwriedir ar gyfer cynhyrchu blodau masnachol, neu ar gyfer defnyddwyr terfynol | Unrhyw drydedd wlad | 20.50 | 0.52 |
| **Toriadau, eginblanhigion a fwriedir ar gyfer plannu, nad ydynt wedi eu pennu na'u cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn** | | | |
| *Pob genws* | Unrhyw drydedd wlad | 32.15 | 1.57 |
| **Planhigion ar gyfer plannu** | | | |
| Planhigion prennaidd(2) (ac eithrio unrhyw rai a bennir neu a gynhwysir mewn lle arall yn y tabl hwn), a fwriedir ar gyfer plannu ac a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol(1). Pob | Unrhyw drydedd wlad | 32.15 | 1.57 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| genws | | | |
| Planhigion nad ydynt yn brennaidd(3) (ac eithrio unrhyw rai a bennir neu a gynhwysir mewn lle arall yn y tabl hwn), a fwriedir ar gyfer plannu. Pob genws | Unrhyw drydedd wlad | 32.15 | 1.57 |
| Planhigion dan do(4). Pob genws | Unrhyw drydedd wlad | 32.15 | 1.57 |
| Planhigion eraill (ac eithrio unrhyw rai a bennir neu a gynhwysir mewn lle arall yn y tabl hwn), a fwriedir ar gyfer plannu. Pob genws | Unrhyw drydedd wlad | 32.15 | 1.57 |
| **Blodau wedi eu torri** | | | |
| Dendranthema (DC.) Des Moul. (Chrysanthemum L.) | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.28 | 0.15 |
| | Colombia neu Ecuador | 21.37 | 2.62 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Colombia, Ecuador, Liechtenstein neu'r Swistir | 2.13 | 0.26 |
| Eryngium Tournier ex Linnaeus. | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, trydedd wlad Ewropeaidd, Liechtenstein neu'r Swistir | 4.27 | 0.52 |
| Lisianthus L | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, trydedd wlad Ewropeaidd, Liechtenstein neu'r Swistir | 4.27 | 0.52 |
| Rosa L. | Colombia neu Ecuador | 1.28 | 0.15 |
| | Canada, India, Mecsico neu UDA | 21.37 | 2.62 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Canada, Colombia, Ecuador, India, Liechtenstein, Mecsico, y Swistir neu UDA | 2.13 | 0.26 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Solidago L. | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.28 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 4.27 | 0.52 |
| Genera eraill nad ydynt wedi eu pennu na'u cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.28 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 2.13 | 0.26 |
| **Canghennau â deiliant, rhannau o goed conwydd (ac eithrio rhisgl neu goed Nadolig wedi eu torri)** | | | |
| Pob genws | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.01 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.69 | 0.26 |
| **Ffrwythau, llysiau, dail** | | | |
| Momordica L. | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 26.55 | 2.62 |
| Ocimum L. | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 2.15 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 35.84 | 2.62 |
| Solanaceae Juss. (ac eithrio Solanum tuberosum L. Solanum lycopersicum L, Solanum melongena L. a | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Capsicum sp.) | | | |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 26.55 | 2.62 |
| Solanum lycopersicum L. | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Morocco | 2.65 | 0.26 |
| | Yr Ynysoedd Dedwydd | 13.27 | 1.31 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Ynysoedd Dedwydd, un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein, Morocco neu'r Swistir | 53.10 | 5.25 |
| Solanum melongena L. | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Twrci | 15.93 | 1.57 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein, y Swistir neu Dwrci | 26.55 | 2.62 |
| Capsicum | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 53.10 | 5.25 |
| Zea mays | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 53.10 | 5.25 |
| Ipomoea batatas | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio Cameroon, un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 2.65 | 0.26 |
| | Cameroon | 53.10 | 5.25 |
| Persea americana | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, | 1.59 | 0.15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Liechtenstein neu'r Swistir | | |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 2.65 | 0.26 |
| Vitis | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 2.65 | 0.26 |
| Malus | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Trydydd gwledydd Ewropeaidd(5) | 7.96 | 0.78 |
| | Yr Ariannin | 18.58 | 1.83 |
| | Chile | 2.65 | 0.26 |
| | Seland Newydd | 5.31 | 0.52 |
| | De Affrica | 7.96 | 0.78 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Ariannin, Chile, un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein, Seland Newydd, De Affrica, y Swistir neu drydydd gwledydd Ewropeaidd(5) | 53.10 | 5.25 |
| Pyrus | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Yr Ariannin | 13.27 | 1.31 |
| | Chile | 7.96 | 0.78 |
| | De Affrica | 5.31 | 0.52 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Ariannin, Chile, un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein, De Affrica neu'r Swistir | 53.10 | 5.25 |
| Fragaria | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 2.65 | 0.26 |
| Rubus | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, | 1.59 | 0.15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Liechtenstein neu'r Swistir | | |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 2.65 | 0.26 |
| Vaccinium | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Trydydd gwledydd Ewropeaidd(5) | 26.55 | 2.62 |
| | Yr Ariannin | 13.27 | 1.31 |
| | Chile | 5.31 | 0.52 |
| | Periw | 5.31 | 0.52 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Ariannin, Chile, un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein, Periw, y Swistir neu Drydydd Gwledydd Ewropeaidd(5) | 53.10 | 5.25 |
| Zingiber officinale | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio Cameroon, un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 2.65 | 0.26 |
| | Cameroon | 53.10 | 5.25 |
| Asparagus officinalis | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 53.10 | 5.25 |
| Genera neu rywogaethau eraill o ffrwythau neu lysiau nad ydynt wedi eu pennu na'u cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 1.59 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 2.65 | 0.26 |
| Dail eraill nad | Unrhyw un o Aelod- | 2.15 | 0.15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ydynt wedi eu pennu na'u cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn | wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | | |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 3.58 | 0.26 |
| **Hadau (ar gyfer hau), meithriniad meinwe** | | | |
| Pob genws, ar gyfer treialon neu brofi | Unrhyw drydedd wlad | 12.81 | 0.52 |
| Brassicaceae (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi) | Yr Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay | 128.13 | 5.25 |
| Capsicum spp. L. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi) | Unrhyw drydedd wlad | 128.13 | 5.25 |
| Poaceae (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi) | Yr Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay | 128.13 | 5.25 |
| Solanum lycopersicum L. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi) | Unrhyw drydedd wlad | 128.13 | 5.25 |
| Solanum tuberosum L. (Gwir had) (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi) | Unrhyw drydedd wlad | 128.13 | 5.25 |
| Trifolium spp. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi) | Yr Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay | 128.13 | 5.25 |
| Genera neu rywogaethau eraill nad ydynt wedi eu pennu na'u cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn | Unrhyw drydedd wlad | 6.40 | 0.26 |
| **Grawn (ac eithrio hadau ar gyfer hau)** | | | |
| Secale L. | Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA | 142.98 | 5.25 |
| Triticum L. | Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA | 142.98 | 5.25 |
| X Triticosecale | Affganistan, India, | 142.98 | 5.25 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wittm. ex A. Camus | Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA | | |
| **Cloron tatws** | | | |
| Solanum tuberosum L. (tatws hadyd) | Unrhyw drydedd wlad | 156.69 | 5.25 |
| Solanum tuberosum L. (tatws bwyta) | Yr Aifft, Gwlad Pwyl, Portiwgal neu Rwmania | 78.34 | 2.62 |
| | Sbaen | 156.69 | 5.25 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Aifft, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania neu Sbaen | 4.70 | 0.15 |
| **Coed Nadolig wedi eu torri (llai na 3 metr o uchder)** | | | |
| Pob genws | Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 3.58 | 0.15 |
| | Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir | 5.98 | 0.26 |
| **Peiriannau neu gerbydau sydd wedi eu gweithredu at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth** | Unrhyw drydedd wlad | 5.98 | 0.26 |

(1) Ystyr "a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol" yw y'i bwriedir, drwy dystiolaeth o'r pecyn, y label neu drwy ddulliau eraill, i'w gyflenwi yn uniongyrchol i ddefnyddwyr terfynol.

(2) Ystyr "planhigion prennaidd" yw planhigion sydd â choesyn prennaidd neu rannol brennaidd, ac mae'n cynnwys pob coeden, deunydd lluosogi coedwigaeth (ac eithrio had), llwyni a phalmwydd, a'r gwinwydd a'r perlysiau lluosflwydd hynny sydd â choesynnau prennaidd neu rannol brennaidd; ac at y diben hwn mae "perlysiau lluosflwydd" yn golygu perlysiau y mae eu hoedran cyfartalog yn fwy na dwy flynedd.

(3) Ystyr "planhigion nad ydynt yn brennaidd" yw planhigion nad ydynt yn blanhigion prennaidd.

(4) Ystyr "planhigion dan do" yw planhigion yr ymddengys o'u pecyn, eu label neu drwy ddulliau eraill y'u bwriedir i'w cyflenwi'n uniongyrchol i ddefnyddwyr terfynol i'w defnyddio o dan do neu i'w defnyddio mewn acwaria.

(5) Ystyr "trydydd gwledydd Ewropeaidd" yw Albania, Andorra, Armenia, Azerbaijan, Belarws, Bosnia-Herzegovina, Georgia, Gogledd Macedonia, Gwlad yr Iâ, Moldofa, Monaco, Montenegro, Norwy, Rwsia (dim ond y rhannau a ganlyn: y Rhanbarth Ffederal Canolog (Tsentralny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y Gogledd-orllewin (Severo-Zapadny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y De (Yuzhny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal Gogledd y Cawcasws (Severo-Kavkazsky federalny okrug) a Rhanbarth Ffederal y Folga (Privolzhsky federalny okrug)), San Marino, Serbia, Twrci, Wcráin, yr Ynysoedd Dedwydd ac Ynysoedd Ffaro."

(4) Hepgorer Atodlen 2A (rhestr o blanhigion a chynhyrchion planhigion sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir sy'n ddarostyngedig i ffioedd ar gyfer gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod o ddiwedd y cyfnod graddoli trosiannol).

(5) O flaen Atodlen 3, mewnosoder—

“ATODLEN 2B Rheoliad 3(2)(a) a (b)

| *Categori a disgrifiad o blanhigyn neu gynnyrch planhigyn* |
| --- |
| **Blodau wedi eu Torri** |
| *Dendranthema* (DC.) Des Moul. (*Chrysanthemum* L.) |
| *Rosa* L. |
| *Solidago* L. |
| Genera eraill nad ydynt wedi eu pennu na’u cynnwys *mewn lle arall yn y tabl hwn* |
| **Canghennau â deiliant, rhannau o goed conwydd (ac eithrio rhisgl neu goed Nadolig wedi eu torri)** |
| *Pob genws* |
| **Ffrwythau, llysiau, dail** |
| *Momordica* L. |
| *Ocimum* L. |
| *Solanaceae Juss.* (ac eithrio *Solanum tuberosum* L.) |
| *Solanum melongena* L. |
| *Genera neu rywogaethau eraill o ffrwythau neu lysiau nad ydynt wedi eu pennu na’u cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn* |
| *Dail eraill nad ydynt wedi eu pennu na’u cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn* |
| **Coed Nadolig wedi eu torri (llai na 3 metr o uchder)** |
| *Pob genws”* |

(3) For Schedule 1 (import inspection fees), substitute—

## "SCHEDULE 1

Regulation 3(2A) and (2C)

## Import inspection fees

| *Column 1* *Category and description of plant, plant product or other object* | *Column 2* *Country of origin* | *Column 3* *Fee: Physical check (£)* | *Column 4* *Fee: Identity check (£)* |
|---|---|---|---|
| **Bulbs, corms, rhizomes, tubers (other than tubers of potatoes), onions, shallots, garlic, leeks and other alliaceous vegetables, dormant, not in substrate** | | | |
| All genera intended for planting, other than commercial flower production, and not intended for final users(1) | Any third country | 205.04 | 5.25 |
| All genera intended for planting, and intended for commercial flower production, or for final users | Any third country | 20.50 | 0.52 |
| **Cuttings, seedlings intended for planting, not specified or included anywhere else in this table** | | | |
| *All genera* | Any third country | 32.15 | 1.57 |
| **Plants for planting** | | | |
| Woody plants(2) (other than specified or included elsewhere in this table), intended for planting and intended for final users(1). All genera | Any third country | 32.15 | 1.57 |
| Non-woody plants(3) (other than specified or included elsewhere in this table), intended for planting. All genera | Any third country | 32.15 | 1.57 |
| Indoor plants(4). All genera | Any third country | 32.15 | 1.57 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Other plants (other than specified or included elsewhere in this table), intended for planting. All genera | Any third country | 32.15 | 1.57 |
| **Cut flowers** | | | |
| Dendranthema (DC.) Des Moul. (Chrysanthemum L.) | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.28 | 0.15 |
| | Columbia or Ecuador | 21.37 | 2.62 |
| | Any third country other than an EU Member State, Columbia, Ecuador, Liechtenstein or Switzerland | 2.13 | 0.26 |
| Eryngium Tournier ex Linnaeus. | Any third country other than an EU Member State, European third country, Liechtenstein or Switzerland | 4.27 | 0.52 |
| Lisianthus L | Any third country other than an EU Member State, European third country, Liechtenstein or Switzerland | 4.27 | 0.52 |
| Rosa L. | Colombia or Ecuador | 1.28 | 0.15 |
| | Canada, India, Mexico or the USA | 21.37 | 2.62 |
| | Any third country other than an EU Member State, Canada, Colombia, Ecuador, India, Liechtenstein, Mexico, Switzerland or the USA | 2.13 | 0.26 |
| Solidago L. | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.28 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 4.27 | 0.52 |
| Other genera not specified or included elsewhere in this table | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.28 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 2.13 | 0.26 |
| **Branches with foliage, parts of conifers (other than bark or cut Christmas trees)** | | | |
| All genera | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.01 | 0.15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.69 | 0.26 |
| **Fruit, vegetables, leaves** | | | |
| Momordica L. | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 26.55 | 2.62 |
| Ocimum L. | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 2.15 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 35.84 | 2.62 |
| Solanaceae Juss. (other than Solanum tuberosum L. Solanum lycopersicum L, Solanum melongena L. and Capsicum sp.) | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 26.55 | 2.62 |
| Solanum lycopersicum L. | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Morocco | 2.65 | 0.26 |
| | Canary Islands | 13.27 | 1.31 |
| | Any third country other than the Canary Islands, an EU Member State, Liechtenstein, Morocco or Switzerland | 53.10 | 5.25 |
| Solanum melongena L. | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Turkey | 15.93 | 1.57 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein, Switzerland or Turkey | 26.55 | 2.62 |
| Capsicum | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or | 53.10 | 5.25 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Switzerland | | |
| Zea mays | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 53.10 | 5.25 |
| Ipomoea batatas | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than Cameroon, an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 2.65 | 0.26 |
| | Cameroon | 53.10 | 5.25 |
| Persea americana | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 2.65 | 0.26 |
| Vitis | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 2.65 | 0.26 |
| Malus | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | European third countries(5) | 7.96 | 0.78 |
| | Argentina | 18.58 | 1.83 |
| | Chile | 2.65 | 0.26 |
| | New Zealand | 5.31 | 0.52 |
| | South Africa | 7.96 | 0.78 |
| | Any third country other than Argentina, Chile, an EU Member State, Liechtenstein, New Zealand, South Africa, Switzerland or European Third countries(5) | 53.10 | 5.25 |
| Pyrus | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Argentina | 13.27 | 1.31 |
| | Chile | 7.96 | 0.78 |
| | South Africa | 5.31 | 0.52 |
| | Any third country other than Argentina, Chile, an EU Member State, Liechtenstein, South | 53.10 | 5.25 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Africa or Switzerland | | |
| Fragaria | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 2.65 | 0.26 |
| Rubus | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 2.65 | 0.26 |
| Vaccinium | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | European third countries(5) | 26.55 | 2.62 |
| | Argentina | 13.27 | 1.31 |
| | Chile | 5.31 | 0.52 |
| | Peru | 5.31 | 0.52 |
| | Any third country other than Argentina, Chile, an EU Member State, Liechtenstein, Peru, Switzerland or European Third Countries(5) | 53.10 | 5.25 |
| Zingiber officinale | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than Cameroon, an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 2.65 | 0.26 |
| | Cameroon | 53.10 | 5.25 |
| Asparagus officinalis | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 53.10 | 5.25 |
| Other genera or species of fruit or vegetables not specified or included elsewhere in this table | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 1.59 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 2.65 | 0.26 |
| Other leaves not specified or | Any EU Member State, Liechtenstein or | 2.15 | 0.15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| included elsewhere in this table | Switzerland | | |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 3.58 | 0.26 |
| **Seeds (for sowing), tissue cultures** | | | |
| All genera, for trials or testing | Any third country | 12.81 | 0.52 |
| Brassicaceae (other than for trials or testing) | Argentina, Australia, Bolivia, Brazil, Chile, New Zealand or Uruguay | 128.13 | 5.25 |
| Capsicum spp. L. (other than for trials or testing) | Any third country | 128.13 | 5.25 |
| Poaceae (other than for trials or testing) | Argentina, Australia, Bolivia, Brazil, Chile, New Zealand or Uruguay | 128.13 | 5.25 |
| Solanum lycopersicum L. (other than for trials or testing) | Any third country | 128.13 | 5.25 |
| Solanum tuberosum L. (True seed) (other than for trials or testing) | Any third country | 128.13 | 5.25 |
| Trifolium spp. (other than for trials or testing) | Argentina, Australia, Bolivia, Brazil, Chile, New Zealand or Uruguay | 128.13 | 5.25 |
| Other genera or species not specified or included elsewhere in this table | Any third country | 6.40 | 0.26 |
| **Grain (other than seeds for sowing)** | | | |
| Secale L. | Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA | 142.98 | 5.25 |
| Triticum L. | Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA | 142.98 | 5.25 |
| X Triticosecale Wittm. ex A. Camus | Afghanistan, India, Iran, Iraq, Mexico, Nepal, Pakistan, South Africa or the USA | 142.98 | 5.25 |
| **Tubers of potatoes** | | | |
| Solanum tuberosum L. (seed potatoes) | Any third country | 156.69 | 5.25 |
| Solanum | Egypt, Poland, | 78.34 | 2.62 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| tuberosum L. (ware potatoes) | Portugal or Romania | | |
| | Spain | 156.69 | 5.25 |
| | Any third country other than Egypt, Poland, Portugal, Romania or Spain | 4.70 | 0.15 |
| **Cut Christmas trees (less than 3 metres in height)** | | | |
| All genera | Any EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 3.58 | 0.15 |
| | Any third country other than an EU Member State, Liechtenstein or Switzerland | 5.98 | 0.26 |
| **Machinery or vehicles which have been operated for agricultural or forestry purposes** | Any third country | 5.98 | 0.26 |

(1) "Intended for final users" means intended, by evidence from the packaging, labelling or by other means, for direct supply to final users.

(2) "Woody plants" means plants which have a woody or partly woody stem, and includes all trees, forest reproductive material (other than seed), shrubs and palms, and those vines and perennial herbs with woody or partly woody stems; and for this purpose "perennial herbs" means herbs for which the average life exceeds two years.

(3) "Non-woody plants" means plants that are not woody plants.

(4) "Indoor plants" means plants which appear from their packaging, labelling or by other means to be intended for direct supply to final users for indoor use or use in aquaria.

(5) "European third countries" means Albania, Andorra, Armenia, Azerbaijan, Belarus, Bosnia and Herzegovina, Canary Islands, Faroe Islands, Georgia, Iceland, Moldova, Monaco, Montenegro, North Macedonia, Norway, Russia (only the following parts: Central Federal District (Tsentralny federalny okrug), Northwestern Federal District (Severo-Zapadny federalny okrug), Southern Federal District (Yuzhny federalny okrug), North Caucasian Federal District (Servero-Kavkazsky federalny okrug) and Volga Federal District (Privolzhsky federalny okrug)), San Marino, Serbia, Turkey and Ukraine.".

(4) Omit Schedule 2A (list of plants and plant products originating in an EU member state, Liechtenstein or Switzerland subject to fees for physical checks and identity checks from the end of the transitional staging period).

(5) Before Schedule 3, insert—

“SCHEDULE 2B Regulation 3(2)(a) and (b)

| *Category and description of plant or plant product* |
|---|
| **Cut Flowers** |
| *Dendranthema* (DC.) Des Moul. (*Chrysanthemum* L.) |
| *Rosa* L. |
| *Solidago* L. |
| Other genera not specified or included *elsewhere in this table* |
| **Branches with foliage, parts of conifers (other than bark or cut Christmas trees)** |
| *All genera* |
| **Fruit, vegetables, leaves** |
| *Momordica* L. |
| *Ocimum* L. |
| *Solanaceae Juss.* (other than *Solanum tuberosum* L.) |
| *Solanum melongena* L. |
| *Other genera or species of fruit or vegetables not specified or included elsewhere in this table* |
| *Other leaves not specified or included elsewhere in this table* |
| **Cut Christmas trees (less than 3 metres in height)** |
| *All genera”* |

**Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019**

**3.** Yn Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019(**1**), yn y tabl yn Atodlen 1 (ffioedd am arolygiadau mewn cysylltiad ag awdurdodiad pasbort planhigion), yn rhes gyntaf y golofn gyntaf (math o arolygiad), yn lle "Arolygiad ffisegol" rhodder "Arolygiad".

**Amendment of the Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019**

**3.** In the Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019(**1**), in the table in Schedule 1 (fees for inspections in connection with a plant passport authority), in the first row of the first column (type of inspection), for "Physical inspection" substitute "Inspection".

*Huw Irranca-Davies*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
8 Mai 2024

Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
8 May 2024

©ⓗHawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2019/497 (Cy. 114); a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/838 (Cy. 195). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**1**) S.I. 2019/497 (W. 114); amended by S.I. 2021/838 (W. 195). There are other amending instruments but none is relevant.

ISBN 978-0-348-39566-2

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/617